# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 20FED MAI, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 13 Mai 2021)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes (Cadeirydd)

Angela Russell

Gareth Williams

Eryl Jones-Williams (Eilydd)

## Aelod Lleol

Dewi Wyn Roberts

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 7

Black Sheep, Lon Pont Forgan, Abersoch

I ystyried y cais

**<u>TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU</u>**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **20 Mai 2021** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - BLACK SHEEP, ABBERSOCH** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Black Sheep, 1 Lon Pont Morgan, Abersoch, Pwllheli, LL53 7AN gan yr ymgeisydd Heidi Mckinnell. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer stecdy a chaffi ar gyrion pentref Abersoch.

1.2 Gwneir y cais mewn perthynas a gwerthu alcohol, darparu lluniaeth hwyr a cherddoriaeth wedi recordio, fel bod y cyfan wedi ddarparu ar ac oddi ar yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad i'r cais gan breswylwyr cyfagos, a mynegir pryderon gan y Cynghorydd lleol a Cyngor Cymuned Llangenan. Nid oes cytundeb llawn wedi cyrraedd gyda'r ymgeisydd a'r Adran Gwarchod y Cyhoedd, o ran cyfaddawdu i gwtogi oriau allanol yr eiddo o ran cerddoriaeth wedi recordio a darpariaeth alcohol, yn unol a mannau eraill tebyg yn y pentref.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

**Oriau Agor / Opening Hours:**

Nos Ŵyl Calan i ddod i ben am 01:30 :: New Years eve to cease at 01:30hrs

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 09:00 | - | 00:30 |
| Dydd Llun/Monday | 09:00 | - | 00:30 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 09:00 | - | 00:30 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 09:00 | - | 00:30 |
| Dydd Iau/Thursday | 09:00 | - | 00:30 |
| Dydd Gwener/Friday | 09:00 | - | 00:30 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 09:00 | - | 00:30 |

**Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:**

**Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**

Nos Ŵyl Calan i ddod i ben am 01:00 :: New Years eve to cease at 01:00hrs

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 09:00 | - | 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 09:00 | - | 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 09:00 | - | 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 09:00 | - | 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 09:00 | - | 23:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 09:00 | - | 23:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 09:00 | - | 23:00 |

**Lluniaeth yn Hwyr y Nos/Late Night Refreshments:Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**
Nos Ŵyl Calan i ddod i ben am 01:00 :: New Years eve to cease at 01:00hrs

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 23:00 | - | 24:00 |
| Dydd Llun/Monday | 23:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 23:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 23:00 | - | 24:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 23:00 | - | 24:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 23:00 | - | 24:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 23:00 | - | 24:00 |

**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**
Alcohol tu allan i ddod i ben am 22:00 awr
Nos Ŵyl Calan i ddod i ben am 01:00
Outside Alcohol to cease at 22:00hrs
New Years eve to cease at 01:00hrs

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 09:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 09:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 09:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 09:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 09:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 09:00 | - | 00:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 09:00 | - | 00:00 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Gweithredir System TCC, i foddhad swyddogion yr Heddlu a'r Cyngor a darperir recordiadau o'r eiddo am isafswm o 28 diwrnod
- Darperir hyfforddiant manwl i weithwyr ar holl agweddau o trwyddedu yn cynnwys TCC, Iechyd a Diogelwch, gwirio cardiau adnabod ayyb.
- Bydd amserlen llym i blant cael bod ar yr eiddo a rhaid iddynt fod o dan oruchwyliaeth eu rhieni
- Darperir arwyddion diogelwch a sicrhawyd na fydd gwaredu gwastraff megis poteli hwyr y nos

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Preswylwyr cyfagos | 9 gwrthwynebiad |
| Cynghorydd Ardal | E-bost sylwadau |
| Adran Gwarchod y Cyhoedd | Sylwadau ac amodau |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim sylwadau |
| Adran Cynllunio | Dim sylwadau |

**3.1 Aelodau'r cyhoedd a phreswylwyr cyfagos**

Derbyniwyd 9 e-bost yn gwrthwynebu'r cais a chyfeiriwyd tuag at pob un o'r amcanion trwyddedu. Y pryderon sydd wedi amlygu yw materion trosedd ac anrhefn yn deillio o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ysbwriel ac yn bennaf materion o sŵn oherwydd yr oriau arfaethedig y tu allan. Nodwyd hefyd fod yr eiddo ger lon prysur bydd angen croesi i fynychu'r eiddo, diffyg palmant a materion parcio.

**3.2 Cynghorydd lleol**

Cynigwyd y dylai trafod ymhellach yn y pwyllgor trwyddedu y man allanol oherwydd pryderon sŵn, cerddoriaeth, amseroedd cau, ac adnodd parcio.

**3.2 Cyngor Cymuned**

Amlygwyd sawl sylwad ar y cais gan y Cyngor Cymuned yn deillio o cyn brofiad yn y gorffennol. Y prif materion sydd yn codi pryder yw oriau man tu allan o ran llygredd sŵn, diogelwch ffyrdd a pharcio, trosedd ac anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**3.3 Gwarchod y Cyhoedd**

Ceisiwyd ddod i gyfaddawd gyda'r ymgeisydd, er mwyn cyfarch y pryderon o ran defnydd tu allan i'r eiddo ar gyfer cwsmeriaid gyda alcohol a cherddoriaeth wedi ei recordio hyd at 23:00. Diwygir y cais gan yr ymgeisydd hyd at 21:00, ond mae'r Adran yn parhau i wrthwynebu ar sail fod hwn yn ardal breswyl, a fod busnesau tebyg hefo llecynnau allanol wedi cyfyngu eu horiau mewn mannau eraill yn y pentref.

Nid yw'r ymgeisydd wedi nodi os oes caniatâd cynllunio wedi ei dderbyn er mwyn defnyddio y mannau allanol tu allan i'r eiddo, ac felly dylai'r ymgeisydd gadarnhau os oes caniatâd, neu ceisio am ganiatâd cynllunio i gynnwys yr ardal tu allan pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor yn gwrthod y cais - yn unol â'r hyn a amlygir gyda'r ymgynghoriad, ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.